**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2023 (10:30 – 1.50) Y Llwyfan, Caerfyrddin**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd)<br>Ann Beynon<br>William Callaway<br>Nia Elias<br>Rhys Evans<br>John Hayes<br>Meri Huws<br>Yr Athro Anwen Jones<br>Yr Athro Pedr ap Llwyd<br>Llinos Roberts |
| **Sylwedyddion:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) a Dr Cliona O'Neill (CCAUC) (cyfarfod llawn) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr)<br>Gwenllian Griffiths (Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu)<br>Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd)<br>Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd)<br>Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant)<br>Mari Fflur (Rheolwr Academaidd) (Eitem 11) |
| **Ymddiheuriadau:** | Angharad Roberts, Yr Athro Enlli Thomas, Elain Gwynedd |

**Cofnodion Cyfarfod 22 Tachwedd 2023 – caeëdig**

## 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |
| 1.3 | Estynnwyd cydymdeimlad at Dr Ioan Matthews a'i deulu yn dilyn profedigaeth ddiweddar. | | |
| 1.4 | Estynnwyd llongyfarchiadau i Llinos Roberts ar ei phenodiad yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025. | | |

## 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |

## 3. Eitem 3 – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Rhoddwyd diweddariad ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.2 | Nodwyd:<br>• y byddai CADY yn dod yn llawn weithredol ar 1 Ebrill 2024<br>• y trafodaethau strategol rhwng Prif Weithredwr y Coleg a Phrif Weithredwr CADY, Simon Pirotte<br>• bwriad i wahodd yr Athro Fonesig Julie Lydon, cadeirydd Bwrdd CADY, i gyfarfod nesaf Bwrdd y Coleg ym Mangor<br>• bwriad tîm cysgodol y Comisiwn i gwrdd â swyddogion y Coleg ar ddechrau'r flwyddyn newydd i gytuno trefn ar gyfer cydweithio a chyflwyno cyngor | | |
| | Ar y pwynt hwn ymunodd yr Athro Anwen Jones yn y cyfarfod | | |

## 4. Eitem 4 – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Cyflwynwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda CADY gan y Prif Weithredwr. | | |
| 4.2 | Wrth ymateb i nifer o gwestiynau nodwyd:<br>• y byddai trefniadau presennol y Coleg yn parhau yn y tymor canolig wrth i CADY gychwyn ar ei waith<br>• bydd y Cynllun Strategol i'w baratoi yn dilyn Etholiad 2026<br>• perthynas cydweithredol CADY a'r Coleg | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Yn ystod y drafodaeth argymhellwyd y dylid rhoi ystyriaeth i Erthyglau Cymdeithasu'r Coleg yng nghyd-destun cynghori'r Comisiwn erbyn Mawrth 2025 | Ystyried Erthyglau Cymdeithasu'r Coleg | Erbyn Mawrth 2025 |
| 4.4 | Argymhellwyd bod yr aelodau yn cyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol ar y Memorandwm gyda'r Comisiwn erbyn 4 Rhagfyr. | Aelodau i gyflwyno sylwadau ar y Memorandwm | Erbyn 4 Rhagfyr 2023 |

## 5. Eitem 5 – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Cyflwynwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan y Prif Weithredwr. | | |
| 5.2 | Nodwyd y Memorandwm a gytunwyd rhwng Prif Weithredwr y Coleg a Phrif Weithredwr y Ganolfan. | | |
| 5.3 | Adroddwyd ymhellach bod swyddogion yn cydweithio ac yn cyd-gynllunio er mwyn sicrhau nad oes strategaethau yn dyblygu. | | |
| 5.4 | Yn ystod y drafodaeth argymhellwyd rhoi cyhoeddusrwydd i bartneriaethau arloesol y Coleg. | | |
| 5.5 | Cytunwyd i'r argymhelliad y dylid adolygu'r Memorandwm yn flynyddol. | Adolygu'r Memorandwm | Yn flynyddol |

## 6. Eitem 6 – Blaenoriaethau strategol hyd at 2025/26

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Cyflwynwyd blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod hyd at 2025/26 gan y Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu a'r Prif Weithredwr. | | |
| 6.2 | Nodwyd y blaenoriaethau cyfredol a'r cyd-destun allanol:<br>• sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil<br>• Bil Addysg Gymraeg a chefnogi gweithredu'r ddeddf<br>• perthynas gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | | |
| 6.3 | Nodwyd themâu'r cynllun tair blynedd:<br>• cyllid tymor byr (2024/25) a chanolig (2025/26)<br>• adolygu a mireinio cynlluniau presennol a chynllunio ar gyfer cyfnod y Senedd newydd<br>• dangos cynnydd a chynghori'r Comisiwn ar dargedau a mesur cynnydd darparwyr | | |
| 6.4 | Nodwyd blaenoriaethau strategol a derbyniwyd diweddariadau ar:<br>• y sector gyfan<br>• addysg uwch gan roi pwyslais ar ehangu cynulleidfaoedd ac arallgyfeirio cyllid yn sgil y premiwm<br>• addysg bellach a phrentisiaethau gan gynnwys adolygu'r cynllun gweithredu | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.5 | Adroddwyd ar rai newidiadau i'r strwythur staffio er mwyn cryfhau'r tîm rheoli a mynd i'r afael â chynghori'r Comisiwn a chynllunio'n strategol. | | |
| 6.6 | Trafodwyd y themâu a'r blaenoriaethau strategol ac wrth ymateb i nifer o gwestiynau nodwyd:<br>• bod ail-strwythuro'n hanfodol er mwyn cynghori'r Comisiwn<br>• mai 16% o gyllideb y Coleg sy'n cael ei wario ar staff canolog a na fyddai costau ychwanegol sylweddol wrth ail-strwythuro<br>• bod deiliaid cyllidebau mewnol y Coleg wedi bod yn cynllunio ar gyfer toriadau yng nghyd-destun toriadau posibl gan Lywodraeth Cymru<br>• y bydd lleihad yng nghyfraniadau pensiwn USS cyflogwyr o 2024/25 ymlaen<br>• cyfranogiad y Bwrdd i'r blaenoriaethau | | |
| 6.7 | Derbyniwyd y cyflwyniad a chytunwyd ei bod yn allweddol bod y Coleg yn ymateb yn bwrpasol i heriau cyllidebol presennol ond hefyd yn ymateb i'r cyfleoedd sy'n codi yn dilyn sefydlu CADY. | | |

**Cofnodion Cyfarfod 22 Tachwedd 2023 – cyfarfod llawn**

## 7. Eitem 7 - Cofnodion 28 Mehefin 2023

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023. | | |

## 8. Eitem 9 – Materion y Cadeirydd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Adroddodd y Cadeirydd ar ymweliadau â changhennau Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Wrecsam. | | |
| 8.2 | Adroddodd ar ddathliad Cymraeg yn y Gweithle ym Mhrifysgol Bangor. | | |
| 8.3 | Trafodwyd ffurf cyfarfodydd y Bwrdd ac argymhellwyd eu cynnal naill ai'n llwyr wyneb yn wyneb neu'n llwyr ar Teams, ond nid ar ffurf hybrid. | | |

## 9. Eitem 10 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn ymunodd Mari Fflur, Alan Jones a Dr Cliona O'Neill yn y cyfarfod. | | |
| 9.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. | | |
| 9.2 | **Cyllideb y Coleg 2023/24**<br>Adroddwyd na fydd toriad i gyllideb y Coleg o fewn 2023/24 ond nad oedd sicrwydd ynghylch cyllideb 2024 ymlaen.<br>Adroddodd Alan Jones y byddai lefel cyllideb Llywodraeth Cymru'n heriol yn dilyn cyhoeddiad y Canghellor ar 22 Tachwedd 2023. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.3 | **Adroddiad monitro Llywodraeth Cymru**<br>Nodwyd yr adroddiad monitro (Gorffennaf 2023) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn yr haf. | | |
| 9.4 | **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth**<br>Adroddwyd ar y Cynllun Sbarduno sef cynllun mentora sy'n codi hyder myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i barhau a'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. | | |
| 9.5 | **Materion Staff**<br>Adroddwyd bod y trefniadau gweithio hybrid wedi cydio ac wedi sefydlogi. | | |

**10. Eitem 14 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023.<br>Adroddodd yr Athro Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar:<br>• adolygu perfformiad rheolwyr buddsoddi'r Coleg, Sarasin<br>• ystyried arbenigedd mewnol i fonitro'r buddsoddiadau yn lle gwasanaeth monitro annibynnol yng nghyfarfod fis Chwefror | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.2 | **Polisi buddsoddiadau (Eitem 14ii)**<br>Cymeradwywyd polisi buddsoddiadau'r Coleg yn dilyn adolygiad y pwyllgor. | | |

**11. Eitem 11 – Y Gymraeg fel pwnc / disgyblaeth**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | Rhoddwyd cyflwyniad ar y Gymraeg fel pwnc / disgyblaeth gan Mari Fflur. | | |
| 11.2 | Nodwyd a thrafodwyd yr heriau yn ymwneud â maes y Gymraeg gan gynnwys:<br>• sicrhau cyflenwad o athrawon a gweithwyr sy'n gallu'r Gymraeg i safon uchel<br>• sicrwydd i ddyfodol adrannau Cymraeg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg<br>• ehangu cynulleidfaoedd | | |
| 11.3 | Rhoddwyd diweddariad ar y Gweithlu Addysg gan nodi'r diffyg sy'n cymhwyso i fod yn athrawon ar hyn o bryd. Trafodwyd hyrwyddo dysgu fel gyrfa yn ogystal â recriwtio a chadw athrawon. | | |
| 11.4 | Cymeradwywyd yr argymhellion i awdurdodi'r swyddogion i ymateb i'r heriau drwy gynllunio a gweithredu fel a amlinellwyd yn y papur a gylchredwyd. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd yr Athro Pedr ap Llwyd a Rhys Evans | | |

### 12. Eitem 12 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023.<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd ar:<br>• strategaeth recriwtio dau aelod newydd i'r pwyllgor<br>• rhaglen waith hir dymor y pwyllgor | | |
| 12.2 | **Gweithdrefnau penodi (Eitem 12ii)**<br>Cyflwynwyd Gweithdrefnau penodi y Bwrdd a'i bwyllgorau gan yr Ysgrifennydd. Cymeradwywyd ychwanegu proses penodi ac ail-benodi cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Mari Fflur | | |

### 13. Eitem 13 - Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023.<br>Adroddodd William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • bod y swm llawn wedi'i ad-dalu i gyfrif banc y Coleg gan HSBC<br>• bod archwiliad mewnol ar seibr ddiogelwch wedi cynnig sicrwydd cyfyngedig gydag 11 o argymhellion a bod y pwyllgor wedi canmol y swyddogion am sicrhau datrysiad buan gan gynnwys cynnydd ar waith ar y cyd rhwng contractwr allanol a'r Rheolwr Systemau a TG newydd<br>• ar broses caffael archwilwyr mewnol | | |
| 13.2 | **Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig y Coleg ar gyfer 2022/23**<br>Cyflwynwyd cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg ar gyfer 2022/23.<br>Nodwyd archwiliad glân gan yr Archwilwyr Allanol.<br>Derbyniwyd a chymeradwywyd y Cyfrifon. | | |
| 13.3 | **Y Gofrestr Risg**<br>Rhoddodd cadeirydd y pwyllgor ddiweddariad ar y Gofrestr Risg a'r newidiadau yn sgil yr hinsawdd bresennol.<br>Cytunwyd i gylchredeg y Gofrestr yn dilyn y cyfarfod. | Cylchredeg y Gofrestr Risg i'r aelodau | Ar unwaith |

## 14. Eitem 15 – Bwrdd Academaidd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2023.<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • y cafwyd cyflwyniad gan Heledd Bebb, o gwmni OB3, ar ganfyddiadau ymchwil i agweddau myfyrwyr i'w drafod yn y canghennau cyn iddynt adrodd nôl i'r Bwrdd Academaidd yng nghyfarfod mis Mai 2024<br>• bod Swyddogion yr undebau Cymraeg wedi sefydlu Pwyllgor Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru | | |

**15. Eitem 16 – Bwrdd Strategol Ôl-16**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol Ôl-16 a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023.<br>Adroddodd Meri Huws, Cadeirydd y Bwrdd Strategol Ôl-16:<br>• y cafwyd cyflwyniadau gan Cymwysterau Cymru; Coleg Pen-y-bont a Choleg y Cymoedd; a Skills Cymru<br>• y cafwyd trafodaeth ar strategaeth Addysg Bellach<br>• bod angen mesur traweffaith y cynllun gweithredu gwreiddiol<br>• y penodwyd Yusuf Ibrahim, Coleg Caerdydd a'r Fro, fel Is-Gadeirydd y Bwrdd Strategol Ôl-16 | | |
| 15.2 | Cytunwyd i wahodd Dr Gwennan Schiavone, Prif Swyddog CYDAG, i ymuno â'r Bwrdd Strategol Ôl-16 | | |

## 16. Eitem 17 – Materion cyfansoddiadol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg**<br>Nodwyd y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg ar 18 Mawrth 2024 ar ffurf rithiol. | | |
| 16.2 | **Cylchoedd Gorchwyl (Eitem 17ii)**<br>Cyflwynwyd a chymeradwywyd diwygiadau i gylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, y Bwrdd Academaidd a’r Bwrdd Strategol Ôl-16.<br>Cyflwynwyd a chymeradwywyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg heb newidiadau. | | |

## 17. Eitem 19 - Cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | Nodwyd dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:<br>• 20 Mawrth 2024, Bangor<br>• 3 Gorffennaf 2024<br>• 20 Tachwedd 2024<br>• 26 Mawrth 2025<br>• 25 Mehefin 2025 | | |
| 17.2 | Diolchwyd i gwmni Nico am gyfieithu ar y pryd. | | |